

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (Y GROES, POWYS) (GWAHARDD TRAFFIG DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Y Groes, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro yr holl draffig (modur a difodur) a da byw rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Eglwys Padarn hyd at ei chyffordd gylchfan â'r A44 yn Y Groes.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A483 tua'r de i Landrindod, trwy Barc Menter Ddole Road ac yna ar yr A4081 tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â'r A470 man i'r gogledd o Bontnewydd ar Wy, yr A470 tua'r gogledd i Raeadr Gwy a'r A44 tua'r dwyrain i ailymuno â'r A483 yn Y Groes: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 25 Medi 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol yn ysbeidiol rhwng 18:00 o'r gloch ar 25 Medi 2023 a 07:00 o'r gloch ar 30 Medi 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://www.llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://www.llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A483 TRUNK ROAD (CROSSGATES, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF TRAFFIC) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Crossgates, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all traffic (motorised and non-motorised) and livestock from proceeding on the length of the A483 trunk road that extends from a point 75 metres north of the centre-point of its junction with the access road leading to St Padarn's Church to its roundabout junction with the A44 at Crossgates.

The alternative route for northbound traffic is via the southbound A483 to Llandrindod Wells, through Ddole Road Enterprise Park then the westbound A4081 to its junction with the A470 north of Newbridge-on-Wye, northbound A470 to Rhayader and eastbound A44 to rejoin the A483 at Crossgates: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 25 September 2023. The temporary prohibitions are expected to operate intermittently from 18:00 hours on 25 September 2023 until 07:00 hours on 30 September 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government